**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**27/03/2025**

1000 – 1430

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**
James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards, Peter Strachan

**Hefyd yn bresennol**
Lorenzo Visentin, Sam Hadley, Nick Millington, Stephen Morgan (Cofnodion)

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Alexia Course

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**
Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

**2. Sylw i ddiogelwch**.
Trafododd y Bwrdd lefelau cynyddol o dipio anghyfreithlon a mathau eraill o ddympio anghyfreithlon ar dir rheilffyrdd, traciau a gorsafoedd, gan nodi risgiau diogelwch, costau glanhau cynyddol, a gallu cyfyngedig i adennill costau neu orfodi cosbau. Nododd yr aelodau broblemau cyffredin fel pwyntiau mynediad hawdd, osgoi rheolau gwastraff masnachol oherwydd taliadau rheoli gwastraff, cerbydau wedi'u gadael, a dryswch ynghylch gwahanu gwastraff, gyda'r trefniadau ailgylchu presennol yn aml yn arwain at gymysgu gwastraff. Mae'r mesurau rhagweithiol parhaus yn cynnwys ymchwiliadau, defnyddio teledu cylch cyfyng, patrolau diogelwch, glanhau ar adeg clirio llystyfiant, a chydweithio rhwng Seilwaith Amey Cymru (AIW) a Network Rail, er bod heriau'n parhau o ran tresmasu, mannau problemus, a chyfrifoldeb gorfodi. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch yr angen am ddull polisi heb oddefgarwch, gwell gwybodaeth am fannau problemus, negeseuon cliriach i Lywodraeth Cymru ar heriau gwastraff a biniau, a ffocws strategol ar sicrhau ystad lân ar yr un pryd â rheoli costau. Gofynnodd y Bwrdd i JG godi tipio a dympio anghyfreithlon a gorfodaeth heb oddefgarwch ar lefel polisi, gan gynnwys gyda phartneriaid gorfodi awdurdodau lleol **[Cam Gweithredu]**.

**3. Sylw i gwsmeriaid**
[redacted] phwysigrwydd refeniw Gogledd Cymru, gan gynnwys cyflwyno Talu wrth Fynd, mwy o wasanaethau, a pherfformiad refeniw. Gofynnodd y Bwrdd i JG adolygu cyfluniad gatiau Cathays ac ymarferoldeb cael giât ychwanegol **[Cam Gweithredu]**

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod blaenorol

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Nododd y Bwrdd gyfnod gweithredol cryf, gyda thwf mewn teithwyr o un flwyddyn i'r llall a TrC yn aml yn arwain o ran perfformiad cwmnïau trên ers y Nadolig, yn enwedig ar Linellau Craidd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau. Priodolwyd y gwelliannau i arweinyddiaeth gref, rheolaeth integredig, newid diwylliannol, adfer yn well ar ôl digwyddiadau, gwelliannau o ran dibynadwyedd y fflyd, newidiadau i amser aros, ac amgylcheddau rheoli wedi'u hadnewyddu, gan ddarparu profiad gwell i gwsmeriaid. Er bod hyder wedi'i fynegi, rhybuddiodd yr aelodau rhag bod yn hunanfodlon gan fod cyflwyno Class 398 a Class 197 a rhaeadru'r fflyd yn cyflwyno heriau; mae'r parodrwydd o ran trenau 398 yn mynd rhagddo'n dda gyda hyfforddiant, profion [redacted] Yn y drafodaeth strategol, ymdriniwyd â symud yn raddol tuag at 4 trên yr awr, opsiynau ar gyfer teithiau gwennol, ansicrwydd ynghylch y galw ar ôl Covid, cyfathrebu â rhanddeiliaid a gwleidyddion, cyfleoedd marchnata, ac ystyriaethau o ran y rhwydwaith ehangach. Nodwyd ambell gyfaddawd gweithredol a phryderon ynghylch asedau.

- **Cam Gweithredu** - MD/CL i gynhyrchu 5–6 o bwyntiau bwled yn amlinellu'r elfennau cadarnhaol a'r risgiau disgwyliedig dros y 12–24 mis nesaf.
- **Cam Gweithredu** - MD i asesu ac adrodd ar opsiynau gwasanaeth gwennol a symud yn raddol tuag at 4 trên yr awr
- [redacted]
- [redacted]

[redacted]

**7. Adolygiad Ariannol**

Trafododd y Bwrdd y cyfnod cyn diwedd y flwyddyn, [redacted]

**8. Diogelwch**

Nododd y Bwrdd berfformiad cryf parhaus ar ddigwyddiadau sy'n arwain at anafiadau, a thrafododd ddefnyddio dulliau rhagweld perfformiad ar gyfer metrigau diogelwch, gyda gwaith yn mynd rhagddo gydag RSSB i ddatblygu dau darged ymestyn. Mae lefelau ymosodiadau'n dal yn isel, a nodwyd bod yr undebau'n cefnogi mwy o ddefnydd o gamerâu sy'n cael eu gwisgo ar y corff – dim ond mewn traean o'r achosion perthnasol y cawsant eu defnyddio. Bydd ymgyrch ar y cyd i annog eu defnyddio yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Diogelwch ym mis Ebrill. Mae gweithgarwch Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd (ORR) wedi dwysáu, gan ysgogi trafodaeth ar safonau, mesurau lliniaru, a'r angen i osgoi effeithiau anfwriadol ar ddiogelwch neu sbarduno cwynion gan y gymuned. Trafododd y Bwrdd hefyd afreoleidd-dra o ran anfon trenau, cynnydd ar TPWS, a'r angen am gynllun diogelwch gweithredol sydd wedi'i dargedu'n well.

[redacted]

**10. Diweddariad masnachol**

[redacted]

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

[redacted]

**10.1 Diogelu Refeniw**

Trafododd y Bwrdd ddiogelu refeniw [redacted]

**11. Marchnata**

Trafododd y Bwrdd y dull ymddygiadol presennol o sicrhau cydymffurfiaeth â thalu am docynnau ac a yw'r dulliau atal presennol yn effeithiol, gydag awgrymiadau i archwilio negeseuon cryfach sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio gwybodaeth o ymgyrchoedd diogelwch cyhoeddus llwyddiannus. Tynnodd y trafodaethau marchnata sylw at y cyfle i hyrwyddo mantais cost rheilffyrdd yn well mewn cyfnod o gynnydd mewn prisiau tanwydd, gydag ymgyrch eisoes yn cael ei datblygu. Disgwylir iddi gael ei lansio o fewn wythnos ar sianeli sydd dan ein rheolaeth ni'n llwyr. Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf am dwf y rhwydwaith yn nodi perfformiad cryf yng Ngogledd Cymru, gyda chyfleoedd yn y dyfodol yn cael eu nodi o ran gwella amserlenni, gwella'r gallu gweithredol, ac ehangu partneriaethau â brandiau a sefydliadau mawr i gryfhau gwelededd a chydweithio.

**13. Unrhyw Fater Arall**

[redacted]

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES